

## Am fynd i Oedfa'r Steddfod?

Mae croeso i bobl sydd am fynychu'r Oedfa ym mhafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r cyffiniau wneud cais am docynnau mynediad rhad-ac-am-ddim unwaith eto eleni. Cynhelir yr Oedfa ar ddydd Sul, Awst 4ydd. Mae gofyn i chi archebu eich tocynnau **erbyn MEHEFIN 30ain**. I archebu, ewch i [www.cytun.org.uk/ffurflen.aspx](http://www.cytun.org.uk/ffurflen.aspx) neu cysylltwch â Mair **erbyn MEHEFIN 23ain**, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family – **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** yng nghwmni Rob Parsons yn Eglwys Sure Hope, Bae Colwyn nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30. Tocyn £5.
- **Diwrnod Dynion (15+)** “Dafydd: Y Da, y Drwg a'r Erchyll” yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 8fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565. Cost: £25 yn cynnwys cinio.
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** dydd Sul, Mehefin 9fed yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2012-13. Arweinydd: Nia Evans, Llangefni. Croeso cynnes i bawb.
- **Christian Viewpoint** yn cyflwyno ‘Hedfan gyda'r adar’ – sgwrs ac arddangosfa o lyfrau, lluniau a chardiau gan Philip Snow, arlunydd adar, ysgrifennwr a chreadydd, nos Lun, Mehefin 10fed am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched!
- **Diwrnod/Penwythnos Genod 15+** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Cyfle i ymlacio, mwyhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) / 01678 520565. Cost: £40 am y nos Wener a dydd Sadwrn fydd yn cynnwys gwely a brecwast a chinio dydd Sadwrn, neu £25 am y dydd Sadwrn yn unig fydd yn cynnwys cinio ym Mhlas yn Dref.
- **Dathlu 150 mlynedd ers agor Capel Cefn Meiriadog** – dydd Sul Mehefin 16eg. Bydd llun o'r aelodau yn cael ei dynnu am 1.00, gydag Oedfa am 2.00 yng nghwmni'r Parch Hywel Meredydd, Llangefni. Bydd te parti i ddilyn, cyn y bydd Oedfa'r Fro yn dod i Gefn Meiriadog am 6.00. Croeso cynnes.
- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** yn dathlu 60 ar Mehefin 24ain–26ain yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / [geraint.w.jones@btinternet.com](mailto:geraint.w.jones@btinternet.com) am fwy o wybodaeth.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26<sup>ain</sup> Mai 2013

## Darlleniad y Dydd

Barnwyr 5:1–5

(BCND tud.225 / BCN: tud.205)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw drannoeth y briodas a'r Pentecost! Sut fywyd oedd hi i'r disgyblion wedyn tybed, wedi iddynt dderbyn nerth yr Ysbryd Glân i gyhoeddi Crist wedi ei gyfodi a bod yr holl fyd bellach i edifarhau, credu a chael eu bedyddio yn ei enw! Rhyfedd fyddai deffro yn y bore a meddwl – “O ia, dyna sydd gen i i'w wneud heddiw!” Ond dyna yw stori pob Cristion – “Cyhoeddwyd o ddydd i ddydd ei iachawdwriaeth ef!” (Salm 96) Gweddiwn felly dros gyhoeddiad yr efengyl yn ein plith yr wythnos yma, ac i'r rhai sy'n methu dod i'r oedfa, gweddiwn y bydd yr Arglwydd yn goleuo'i Air i chithau wrth i chi ei ddarllen, trwy ei Ysbryd, ac y cewch fendith o gwmni hyfryd Duw ei hun.

Drannoeth y corwynt ofnadwy yn Oklahoma hefyd mae'n siŵr ein bod yn cofio am y rhai sydd wedi colli popeth yn y dinistr, a'r teuluoedd sydd mewn galar a phrofedigaeth. ‘Gwynt nerthol yn rhuthro’ o fath gwahanol oedd hwn ac yn ddychryn i'r rhai oedd yn byw yn ei lwybr. Bûm yn meddwl am y gwahaniaeth rhwng y ddau ‘wynt’. Pentecost yr Ysbryd yn dod i fywhau pobl. Dod â bywyd i'r enaid a galluogi pobl i edifarhau a chredu yng Nghrist. ‘Dod i'r bywyd’ ydi'r ffordd y byddwn yn disgrifio tröedigaeth ac mae'n ddisgrifiad da. Yr Ysbryd yn unig sy'n gallu rhoi bywyd trwy ddod â ni i gredu yng Nghrist, ei farwolaeth yn ein lle, ei atgyfodiad a'i eiriolaeth trosom. Ac am yr Ysbryd y dylsem ofyn oddi wrth Dduw. A dyna i chi wahaniaeth arall. Gofyn am i'r corwynt beidio â dod ddaru trigolion Oklahoma'n sicr – gofyn iddo basio heibio. Ond pledio am iddo ddod a wnawn ni hefo'r Ysbryd. Fel y proffwyd Eseciel, gofyn i'r Ysbryd ddod o'r nefoedd i fywhau yr esgryn sychion a wnawn ni! (Eseciel 37)

Wedi dweud hyn, mae ambell i beth cyffredin rhwng y ddau ‘wynt’ hefyd. Un peth sicr sy'n gyffredin yw gallu'r ddau i ddod â phobl ar eu gliniau. Fel y mae un yn ein hatgoffa mewn arswyd am rym sydd uwchlaw ein rheolaeth ni fel pobl, felly y mae grym yr Ysbryd pan ddaw yn ei nerth i argyhoeddi'r byd o bechod, cyfiawnder a barn. Ac o'r darlleniad heddiw – ‘O Arglwydd, pan aethost allan o Seir, ac ymdeithio o faes EDOM, fe grynodd y ddaear, glawiodd y nefoedd...’ (Barnwyr 5:4)

Daw yr Ysbryd â ni i sylweddoli mawredd y nerth sydd gan Dduw ac i weld mai Duw yn unig sydd Arglwydd. Ond rhyfeddod mwy pob pechadur sy'n troi at Grist pan mae ar ei (g)liniau yw sylweddoli mai nerth o blaid ei blant yw nerth arswydus Ysbryd Duw – y ‘grymster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw.’ (Effesiaid 1:19)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd y Parch Rhun Murphy yn pregethu.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i'r oedfa yn Llanfair i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghewn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghewn Berain** am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID). Yn ystod yr oedfa, bydd Celyn Elisa, merch fach Dyfrig a Jannine Poletti-Hughes yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Llansannan

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul i'r plant. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Gwener Taith Gerdded Gymdeithas Henllan ym Mharc Gwledig Loggerheads a phryd o fwyd ar y ffordd adref yng Nghaffi 'R' Canolfan Grefftau Rhuthun. Os ydych â diddordeb, cysylltwch â Hafwen (813445) erbyn pwnn Llun. Cychwyn 6.00 o fuarth y Capel.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Ceinlys M Jones (Llansannan) fu yn Ysbyty Glan Clwyd dros nos yn dilyn anffawd, ond sydd bellach yn yr Inffirmari. Hyderwn y bydd yn gwella'n fuan, ac y bydd iddi hi, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn, brofi agosrwydd yr Arglwydd.
- Cofiw'n hefyd am y teuluoedd sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chyflwynwn hwy oll yn dyner i ofal yr Arglwydd. Dymunwn nodedd a nerth iddynt a gweddiwn y byddant yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Dymuniadau gorau i holl blant a ieuencid y Fro fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro yr wythnos hon.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291 neu  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📠 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.